# Cyfnodau Gras a Chosbau ar gyfer Aseiniadau

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 19/04/2021

Yn darfod ar: **19/04/2024**

**Statws: Cyflawn**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Materion Academaidd**

## Crynodeb

Lleihau straen cyflwyno gwaith erbyn terfyn amser a chreu cyfnod gras ar gyfer cyflwyno aseiniadau.

## Manylion

Yn hytrach na methu dyddiad cau a methu'r aseiniad yn awtomatig, rwy'n cynnig y dylai fod cosb o un radd am bob diwrnod mae'r aseiniad yn hwyr yn cael ei gyflwyno. Gellid gwneud hyn mewn un o ddwy ffordd: Yn gyntaf, trwy ostwng y marc o ganran benodol am bob dydd mae'r aseiniad yn hwyr yn cael ei gyflwyno. Er enghraifft, cyfnod gras o 3 diwrnod ar ôl y dyddiad cau lle mae cosb o 5% dyweder am bob dydd yn cael eu cymryd oddi ar y marc sy'n cael ei ddyfarnu. Felly byddai aseiniad sy'n ennill 70/100 ond a gyflwynwyd 2 ddiwrnod ar ôl y dyddiad cau yn derbyn 60/100 yn lle hynny. Fel arall, gallai hyn weithio trwy ostwng cyfanswm y radd bosibl, e.e. 5% bob dydd. Felly dim ond uchafswm o 90/100 y gall aseiniad a gyflwynir 2 ddiwrnod ar ôl y dyddiad cau ei dderbyn. Yn amlwg, mater i'r brifysgol fyddai penderfynu hyd y cyfnod gras a'r ganran y mae'r marc sy'n cael ei ddyfarnu / cyfanswm y marc yn cael ei ostwng. Y fantais o hyn yn y pen draw fyddai lleihau'r straen ar fyfyrwyr, ynghyd â lleihau effaith academaidd amgylchiadau anochel, a allai fel arall arwain at fethu aseiniad, modiwl neu flwyddyn

Cyflwynwyd gan: Bethany Wright

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
| --- | --- | --- |
| Byddai'n anodd rhoi polisi hwn ar waith o ran llywodraethu ansawdd academaidd. Yn lle hynny, gall myfyrwyr wneud cais am estyniad os na allant fodloni'r dyddiad cau. Fodd bynnag, ni allant hunan-ardystio ar hyn o bryd. Mae'r Brifysgol a'r Swyddog Materion Academaidd wrthi'n cynnal trafodaethau i ganiatáu dull mwy hygyrch a chanolog o ymdrin â cheisiadau am estyniad. | Anna (Materion Academaidd) 2023-2024 | Mehefin 2024 |
| | | |